

Cyfarfod:	Bwrdd Pensiwn
Dyddiad:	17/07/2026
Teitl:	Polisi Disgresiwn Gweinyddol
Awdur:	Meirion Jones, Rheolwr Pensiynau
Pwrpas:	Craffu'r Polisi Disgresiwn Gweinyddol

1. Pwrpas yr Adroddiad

Cyflwyno'r Polisi Disgresiwn Gweinyddol diwygiedig ar gyfer Cronfa Bensiwn Gwynedd i'r Bwrdd Pensiwn i'w adolygu a'i graffu.

Gofynnir i'r Bwrdd Pensiwn ystyried a yw'r polisi arfaethedig yn dangos cydymffurfiaeth â gofynion Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ac a yw'r trefniadau a ddisgrifir yn cefnogi gweinyddiaeth effeithiol, gyson a thryloyw.

2. Cefndir

Mae'n ofynnol i awdurdodau gweinyddu o dan Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol llunio, cyhoeddi a chynnal polisiau sy'n nodi sut y byddant yn arfer disgrisiynau penodol mewn perthynas â gweinyddu cynlluniau.

Pwrpas cynnal Polisi Disgresiwn Gweinyddol ffurfiol yw:

- sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn gyson ac yn dryloyw;
- darparu eglurder i aelodau'r cynllun, cyflogwyr a swyddogion ynghylch arferion gweinyddol;
- cefnogi cydymffurfiaeth â gofynion deddfwriaethol a rheoleiddio;
- lleihau risg weithredol a chyfreithiol sy'n deillio o gymhwyso disgrisiwn anghyson; ac
- cefnogi llywodraethu da a gwneud penderfyniadau effeithiol.

Nid yw'r polisi yn newid buddion statudol aelodau ond yn sefydlu'r fframwaith y mae'r Gronfa yn arfer y disgrisiynau gweinyddol hynny sydd ar gael o dan y Rheoliadau.

3. Adolygiad o'r Polisi

Nid yw Polisiau Disgresiwn Gweinyddol y Gronfa wedi'u hadolygu na'u diweddarau'n gynhwysfawr ers nifer o flynyddoedd, gyda'r polisi blaenorol wedi'i gymeradwyo yn 2009.

Yn ystod y cyfnod hwnnw, mae newidiadau i reoliadau a chanllawiau CPLIL wedi cyflwyno disgrisiynau ychwanegol y mae'n ofynnol i awdurdodau gweinyddu eu hystyried a'u dogfennu. Fel rhan o'r adolygiad hwn, mae'r polisi wedi'i adnewyddu'n llawn i sicrhau bod yr holl disgrisiynau perthnasol y mae'n ofynnol i'r Gronfa eu cynnal yn cael eu cynnwys mewn un ddogfen gyfredol.

Mae'r polisi diwygiedig felly yn ceisio:

- cydgrynhai'r holl ddisgresiynau gweinyddol cyfredol mewn un ddogfen;
- sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion CPLIL cyfredol;
- adlewyrchu arferion gweinyddol cyfredol a threfniadau llywodraethu;
- egluro cyfrifoldebau ac awdurdod dirprwyedig; ac
- gwella tryloywder a chysondeb wrth wneud penderfyniadau.

Cynigir y bydd y ddogfen yn cael ei hadolygu'n flynyddol yn y dyfodol i sicrhau bod Polisi Disgresiwn Gweinyddol y Gronfa yn parhau i fod yn gyfredol, yn adlewyrchu unrhyw newidiadau deddfwriaethol neu weithredol, ac yn parhau i fodloni gofynion rheoleiddio.

4. Prif Newid Arfaethedig

Y prif newidiadau arfaethedig i'r disgresiwn yw:

4.1 Polisi atal pensiwn

Mae'r polisi diwygiedig yn newid dull y Gronfa o atal pensiwn, sef atal taliadau pensiwn am gyfnod pan fo pensiynwr CPLIL yn dychwelyd i gyflogaeth mewn amgylchiadau penodol.

O dan y polisi blaenorol (a fabwysiadwyd yn 2015), dim ond pan oedd aelod yn derbyn pensiwn salwch Haen 1 neu Haen 2 neu wedi cael blynyddoedd ychwanegol gan ei gyflogwr y gallai atal y pensiwn fod yn berthnasol. Yn ymarferol, nid oes unrhyw achosion wedi'u nodi lle mae atal wedi'i gymhwyso ers cyflwyno'r polisi. Nid yw blynyddoedd ychwanegol wedi'u dyfarnu ers nifer o flynyddoedd ac mae ymddeoliadau salwch Haen 1 a Haen 2 yn achosion salwch eithriadol.

Felly, mae'r polisi diwygiedig yn cynnig dileu yr opsiwn o atal pensiwn yn gyfan gwbl ac yn cadarnhau y bydd y Gronfa yn peidio â chymhwyso atal pensiwn mewn achosion yn y dyfodol. Mae hyn yn adlewyrchu profiad gweithredol y Gronfa, cyngor actiwaraid ac aliniad â dulliau a fabwysiadwyd gan awdurdodau gweinyddu CPLIL eraill.

4.2 Gofynion Meddygol ar gyfer Cyfraniadau Ychwanegol

Mae'r polisi diwygiedig yn diweddarau ymagwedd y Gronfa at ofynion meddygol ar gyfer aelodau sy'n prynu pensiwn ychwanegol.

O dan y polisi blaenorol, roedd yn ofynnol i aelodau sy'n gwneud cais am Gyfraniadau Rheolaidd Ychwanegol (ARC) gyflwyno adroddiad meddygol boddhaol cyn y gellid derbyn eu hetholiad. O dan y polisi diwygiedig, sy'n adlewyrchu'r trefniadau presennol ar gyfer Cyfraniadau Pensiwn Ychwanegol (APC) a Chyfraniadau Pensiwn Ychwanegol a Rennir (SCAPC), bydd aelodau yn lle hynny yn cwblhau ffurflen datganiad iechyd.

Mae'r Gronfa yn cadw disgresiwn i wrthod cais lle mae pryderon iechyd yn cael eu nodi. Mae'r dull hwn yn lleihau gweinyddiaeth tra'n parhau i ddiogelu'r Gronfa lle bo hynny'n briodol.

4.3 Costau Straen Pensiwn

Mae'r polisi diwygiedig yn diweddarau dull y Gronfa o adennill costau straen pensiwn gan gyflogwyr.

Yn flaenorol, gallai cyflogwyr dalu costau straen naill ai fel cyfandaliad neu mewn rhandaliadau dros gyfnod o hyd at bum mlynedd. O dan y polisi diwygiedig, bydd costau straen fel arfer yn daladwy fel un taliad cyfandaliad, a dim ond mewn achosion o galedi ariannol y bydd trefniadau i dalu dros gyfnod yn cael eu hystyried, ac yna yn amodol ar godi llog ar unrhyw falans sy'n weddill.

Mae'r polisi hefyd yn egluro y bydd costau straen a gynhyrchir gan y system sy'n deillio o ymddeoliad hyblyg o 60 oed ymlaen yn cael eu diystyru lle nad ydynt yn cynrychioli cost actiwaraid wirioneddol.

4.4 Cytundebau a Meini Prawf Derbyn

Mae'r polisi diwygiedig yn symleiddio'r disgresiynau sy'n ymwneud â chyrff derbyn.

Mae gofynion manwl a gynhwyswyd yn flaenorol yn y polisi, megis cyfrifon archwiliedig, cynlluniau busnes, trefniadau gwarantwyr a thaliadau gweinyddol, bellach yn cael eu rheoli trwy'r Datganiad Strategaeth Ariannu a dogfennau llywodraethu cysylltiedig.

4.5 Taliadau Grant Marwolaeth

Mae'r polisi diwygiedig yn cadw ffurflenni Mynegi Dymuniad fel y prif ganllaw wrth benderfynu talu grantiau marwolaeth ond mae'n cyflwyno mwy o hyblygrwydd lle nad oes enwebiad dilys.

Yn hytrach na dilyn gorchymyn talu penodol, bydd y Gronfa yn ystyried yr holl amgylchiadau perthnasol a gall dalu'r grant marwolaeth i ystâd yr aelod neu fuddiolwr priodol arall lle bo hynny'n briodol.

4.6 Seibiannau addysgol i blant cymwys

Mae'r polisi yn parhau i drin addysg neu hyfforddiant fel parhaus lle nad yw seibiant yn fwy nag un flwyddyn academiaidd.

Mae'r polisi diwygiedig yn ychwanegu eglurhad y bydd taliadau'n cael eu hadfer a'u hôl-ddyddio, lle bo hynny'n briodol, unwaith y derbynnir tystiolaeth sy'n cadarnhau bod addysg amser llawn wedi ailddechrau.

4.7 Cynghorwyr Meddygol

Mae'r polisi diwygiedig yn cryfhau trefniadau llywodraethu sy'n ymwneud â chynghorwyr meddygol ar gyfer asesiadau ymddeoliad salwch.

Mae'n cadarnhau bod y rhestr gymeradwy o ymarferwyr meddygol cofrestredig annibynnol yn cael ei chynnal ar y cyd â Chronfa Bensiwn Clwyd i wella gwytnwch a pharhad. Mae hefyd yn ffurfioli'r gofyniad i wirio ymarferwyr yn erbyn cofrestr y Cyngor Meddygol Cyffredinol cyn ei gymeradwyo.

5. Ystyriaethau Llywodraethu a Risg

Mae cynnal ac adolygu'r Polisi Disgresiwn Gweinyddol yn cefnogi fframwaith llywodraethu'r Gronfa drwy:

- hyrwyddo gwneud penderfyniadau cyson;
- gwella tryloywder i gyflogwyr ac aelodau;
- cefnogi cydymffurfiaeth reoleiddiol;
- lleihau risg weithredol ac enw da; ac
- darparu llwybr archwilio clir ar gyfer penderfyniadau gweinyddol.

Gallai methu â chynnal polisi cyfredol gynyddu'r risg o anghysondeb a herio wrth gymhwyso penderfyniadau gweinyddol.

6. Goblygiadau Ariannol

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol sy'n deillio o fabwysiadu'r polisi.

Ni ddisgwylir i'r cynnig cael gwared ar opsiwn atal pensiwn greu effaith ariannol sylweddol yn seiliedig ar brofiad hanesyddol ac absenoldeb achosion a nodwyd o dan y polisi presennol.

7. Goblygiadau Cyfreithiol

Mae'n ofynnol i'r Gronfa o dan y Rheoliadau CPLIL gynnal a chyhoeddi polisiâu sy'n ymwneud â swyddogaethau dewisol penodedig.

Mae'r polisi diwygiedig yn cefnogi cydymffurfiaeth â'r rhwymedigaethau hynny ac yn sicrhau bod yr holl ddisgresiynau perthnasol yn cael eu dogfennu a'u hadolygu'n rheolaidd.

8. Argymhelliad

Gofynnir i'r Bwrdd Pensiynau:

1. Adolygu a chraffu ar y Polisi Disgresiwn Gweinyddol sydd ynghlwm yn Atodiad 1.

2. Ystyried a yw'r polisi yn darparu digon o eglurder, cysondeb a rheolaethau llywodraethu mewn perthynas ag arfer pwerau yn ôl disgresiwn o dan y Rheoliadau CPLIL.
3. Nodi'r newidiadau arfaethedig i ddull y Gronfa o leihau pensiwn.
4. Darparu sylwadau ac argymhellion i'r Pwyllgor Pensiynau i'w hystyried cyn mabwysiadu'r polisi.